**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd nos Fawrth 21 Mehefin am 7:00 y.h drwy Zoom**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Philip Roberts, Hefin Jones, Berwyn Parry Jones, Beca Brown, Richard Robinson, Alan Pritchard.

**Ymddiheuriadau:** Neb

**Clerc:** Meirion Jones

**984. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolchodd am bresenoldeb a gwaith yr aelodau dros y mis. Cyn cychwyn y cyfarfod amlinellodd y cadeirydd ei dyletswyddau dros y mis diwethaf. Ymysg y gwaith mai wedi wneud ydi

- 1/6/ Cyfarfod Un Llais Cymru
- Trefnu pwyllgorau'r cyngor
- 18/6 cyfarfod Cwm y Glo – Clymau Siapan
- Cynhaliwyd dau gyfarfod i drafod Coed Nadolig
- trefnu I weld mainc er cof yn y parc sglefrio yn Cwm y Glo
- Dosbarthu bwyd Pob nos Wener
- Sgwrsio gyda. Menter Fachwen am waith iddynt yn y dyfodol agos
- Rhoi gwybodaeth am Prosiect Sero net Gwynedd
- Diffibriliwr yn Cwm y Gglo yn cael ei ail LEOLI o Becws i Garej London

**985. Derbyn ymddiheuriadau.**

Dim ymddiheuriadau i'w derbyn

**986. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**987. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 17 Mai 2022**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**988. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Llongyfarchwyd y y Cynghorwyr Berwyn Parry Jones a Beca Brown am eu ethol yn aelodau o Gabinet Cyngor Gwynedd. Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones dros Briffyrdd, Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd a'r Cynghorydd Beca Brown dros Addysg.

**989. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

**990. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

WARD

Mae pryder cyson yn cael ei fynegi am ba mor gyfyng ydi top Ffordd yr Orsaf pan fo ceir yn parcio bob ochr i'r darn o lon islaw i siop Co-op. Y pryder mwyaf ydi na fyddai ambiwlans neu injan dan yn gallu pasio efo'r sefyllfa geir fel mae hi pan mae hi ar ei gwaethaf. Mae trafodaethau yn parhau gyda'r adran Amgylchedd am ddatrysiadau posib i broblem Ffordd yr Orsaf. Daeth pryderon hefyd i law am bobol yn parcio ar y gornel wrth siop Spar gan wneud gweledEdd yn anodd a hefyd ei gwneud hi'n anniogel i bobol sydd yn defnyddio'r pafin. Mae syniad am ddatrysiad posib wedi ei yrru at y cyngor. Nodwyd hefyd bod yr ardal o gwmpas y cwt band yn mynd yn hynod o brysur ar adegau penodol o'r diwrnod – fel y cyfnod codi plant o'r ysgol – a bod traffig yn dod o bob cyfeiriad. Byddaf yn cael trafodaeth am y sefyllfa gyda'r adran berthnasol.

CYNGOR

Yn dilyn cael fy mhenodi yn Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb dros Addysg mae'r cyfnod diwethaf wedi bod yn gyfres o gyfarfodydd briffio er mwyn dysgu am holl agweddau amrywiol yr adran.

Bu cyhoeddiad am y datblygiadau Cinio Am Ddim sydd yn ganlyniad i gytundeb rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru. Bydd pob plentyn Dosbarth Derbyn yn cael cinio am ddim o fis Medi yma ymlaen a phob plentyn blynyddoedd 1 a 2 erbyn mis Ebrill flwyddyn nesaf.

Rydw i'n croesawu'r cytundeb yn fawr iawn ac yn edrych ymlaen at weld y cynllun yn dechrau fis Medi gan y bydd yn mynd peth ffordd o leiaf at liniaru effeithiau'r creisus costau byw. Mi fydd hefyd yn annog arferion bwyta'n iach mewn plant ac yn golygu o bosib y bydd canolbwyntia plant yn gwella yn y prynhawn gan y bydd pob un yn ddiwahân edi cael pryd da o fwyd poeth amser cinio.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad

**991. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C22/0480/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Estyniad un llawr yn cynnwys to fflat at gefn yr eiddo
**Ymgeisydd:** Mr M Roberts
**Asiant:** Mr A G Jones
**Cyfeiriad:** Llys Eiddon Lôn Groes, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AF
**Cyfeirnod Grid:** 253701.3, 363687.52
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

b) **Rhif y Cais:** C22/0394/23/RC
**Math o Gais:** Addasu neu ryddhau rhwymedigaethau cynllunio
**Bwriad:** Cais i ddiwygio Cytundeb 106 "Ty Fforddiadwy" oddi ar eiddo anheddol plot 5 i plot rhif 8 Cae'r Eglwys, Llanrug..
**Ymgeisydd:** Mr Alun Williams (Cefn Du Construction Ltd)
**Cyfeiriad:** Tir / At Cae'r Eglwys, Ffordd Llanberis, Llanrug, Caernarfon, LL55 4JA
**Cyfeirnod Grid:** 253560.64, 363442.28
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Methu dod i benderfyniad ar y cais yma hyd nes bydd tystiolaeth fod angen tai / byngalo fforddiadwy.

**992.** I dderbyn adroddiad yr archwiliwr mewnol ar gyfer 2021 / 2022 (copi wedi atodi) ac i'r Cadeirydd a'r Clerc arwyddo'r ffurflen flynyddol.

**Penderfynwyd:** Cyflwynwyd adroddiad yr archwiliwr mewnol i'r cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2021 / 2022. Nid oedd yr archwiliwr wedi darganfod dim i ddod i sylw'r cyngor a diolchwyd i'r clerc am ei waith.

**993.** I bennu dyddiad ac amser ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor Hamdden a Mwynderau

**Penderfynwyd:** I gynnal Pwyllgor Hamdden a Mwynderau ar y 7fed o Orffennaf am 5:00 y.h. drwy Zoom

**994.** I bennu dyddiad ac amser ar gyfer Pwyllgor y Fynwent

**Penderfynwyd:** I gynnal Pwyllgor y Fynwent ar 4ydd o Orffennaf 2022 am 6:00 y.h. yn y fynwent os bydd tywydd yn caniatáu neu fel arall dros Zoom

**995.** I dderbyn diweddariad ar newyddlen y cyngor ar gyfer 2022

Adroddwyd fod y gwaith wedi gychwyn ar greu fersiwn ddrafft ac fod y cadeirydd, is-gadeirydd a'r clerc wedi bod drwyddo a bydd fersiwn drafft yn cael ei rannu maaes o law.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**996**. I bennu rhaglen am weddill y flwyddyn o ddyddiadau ar gyfer trefnu diwrnodiau casglu sbwriel yn Llanrug a Cwm y Glo.

**Penderfynwyd:** Cyfeirio hyn i'r Pwyllgor Hamdden a Mwynderau

**997.** I dderbyn diweddariad ar sefyllfa Japanese Knotweed

Adroddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, iddo dderbyn cwyn gan breswylydd tŷ sydd yn ffinio a cae chwarae Allt Goch, Cwm y Glo yn honni fod Clymog Japan 'Japanese Knotweed' yn tyfu yn y cae chwarae ac fod peth wedi ymledu i'w tir. Cysylltwyd ag arbenigwr yn y maes i drafod sut i'w waredu ac fe gynhaliwyd cyfarfod ar y safle gyda'r arbenigwr. Cytunwyd i symud ymlaen a'r gwaith a bydd y contractwr yn rhoi rhaglen waith at ei gilydd sut i ymgymryd a'r gwaith. Yn dilyn derbyn y rhaglen waith, byd y cyngor yn cysylltu a'r ddau eiddo sydd yn cael eu effeithio gyda manylion y rhaglen.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 20:20

Arwyddwyd

Cadeirydd: Dyddiad: 19 Gorffennaf 2022